

CYFANSODDWYR ENWOG

PWNC: Karl Jenkins		DOSBARTH: CA2	
MANYLION YR UNED: Mae'r prosiect hwn yn archwilio bywyd a chyfansoddiadau Karl Jenkins. Bydd y dosbarth yn creu ffeil ffeithiau am y cyfansoddwr, yn gwrando ar ei waith ac yn ei werthuso. Byddant yn dysgu canu <i>Adiemus</i> ac yn archwilio haenu drymio Affricanaidd gyda rhythmau. Byddant yn cwblhau gwaith celf yn seiliedig ar wrando ar a thrafod <i>The Armed Man</i> ac yn gwrando ar drefniannau gwahanol o <i>Palladio</i> , gan adnabod y gwahaniaeth rhwng gwahanol ensembles, offerynnau a thempi.		SGILIAU TRAWSGWRICWLAIDD: <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu rhifedd • Datblygu meddwl • Datblygu cyfathrebu 	
AMCANION DYSGU	PROFIADAU DYSGU WEDI'U CYLLUNIO	ADNODDAU	CYFEIRNOD CWRICWLWM
<ul style="list-style-type: none"> • Dysgu am y cyfansoddwr a chreu ffeil ffeithiau • Canu un o weithiau enwocaf y cyfansoddwr • Archwilio gwaith rhythm trwy dechnegau haenu drymio Affricanaidd a pherfformio ostinato rhythmig • Gwrando ar yr elfennau cerddorol ar wahanol berfformiadau ensemble o'r un gwaith, eu gwerthuso a gwahaniaethu rhyngddynt • Gwrando ar dri symudiad o <i>The Armed Man</i>, eu trafod, a myfyrio arnynt 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r cyfansoddwr Karl Jenkins ac archwilio'i fywyd yn fyr drwy'r PowerPoint. Gofyn i'r dosbarth gwblhau ffeil ffeithiau fer ar Karl Jenkins. Gellir gwneud hyn fel tasg gwaith cartref neu ei gwblhau yn y dosbarth. Defnyddio'r ddogfen Ffeil Ffeithiau i gofnodi gwybodaeth am y cyfansoddwr. Gall y dosbarth ddefnyddio tabledi i gael mynediad at y rhyngwyd er mwyn darganfod rhagor o wybodaeth am Jenkins. Gellid cwblhau'r dasg hon hefyd ar ap rhyngweithiol fel iMovie. • Rhoi trosolwg byr o <i>Adiemus</i> a gwrando ar y trac. Trafod o ba wlad maen nhw'n meddwl y daw'r gerddoriaeth, beth mae'n ei olygu a pha iaith y gallai fod. Datgelu i'r dosbarth bod y geiriau'n iaith ddyfeisiedig, a dangos y geiriau i'r dosbarth. Ymarfer y geiriau, gan sicrhau ynganiad a rhythm cywir a rhoi cynnig ar berfformio'r darn. Ymarfer a recordio unwaith y bydd y dosbarth yn teimlo'n sicr gyda'r darn. • Trafod sut mae Jenkins yn defnyddio offerynnau taro a lleisiau i greu rhythmau diddorol yn y gerddoriaeth a'i gymharu â drymio Affricanaidd, fel <i>Miam</i>. Atgoffa'r dosbarth beth yw rhythm (patrwm) a beth yw ostinato (patrwm ailadroddus). Dangos rhythm trwy ei chlacio i'r dosbarth a gofyn iddynt ei chlacio'n ôl i chi. Chwarae gêm clacio'r rhythm yn ôl ac efallai chwarae 'Paid â chlacio hwn'. Nesaf dangos ostinato, gofyn i'r dosbarth ymuno â'r ostinato. • Tynnu sylw at bedair llinell wahanol i'r gân <i>Adiemus</i>. Dweud y geiriau a gofyn i'r dosbarth eu hailadrodd. Clacio rhythmau pob llinell a gofyn i'r dosbarth nodi pa linell rydych chi'n ei pherfformio. Gwahodd y myfyrwyr i brofi eu cyd-ddisgyblion ar ba linell o <i>Adiemus</i> y maent yn eu clacio. • Rhannu'r dosbarth yn bedwar grŵp, gan neilltuo llinell i bob grŵp o <i>Adiemus</i> ac offeryn cerdd gwahanol ar gyfer pob grŵp. Gofyn iddynt ymarfer chwarae'r rhythm ar eu hofferyn cerdd fel grŵp fel ostinato. Cadw curiad cyson, dweud wrth bob grŵp i chwarae eu ostinato yn ôl i'r dosbarth. Unwaith y bydd pob grŵp wedi perfformio, rhoi gwybod iddynt y byddant yn chwarae pob un o'r rhythmau gyda'i gilydd fel un, ond yn haenu pob rhythm ar ben ei gilydd, un ar y tro. Trefnu ym mha drefn y bydd y rhythmau'n cael eu hychwanegu a sut bydd y gerddoriaeth yn dechrau ac yn gorffen. Ymarfer gyda'r trac <i>Adiemus</i> gwreiddiol, canu'r geiriau a chwarae eu rhythmau yn ystod rhan offerynnol y gân. Perfformio a recordio • Rhoi trosolwg byr o <i>The Armed Man</i> a gwrando ar y trac agoriadol. Trafod beth mae'r gerddoriaeth yn ei gyfleu (gorymdeithio i ryfel). Sut mae'r cyfansoddwr yn cyflawni hyn? Cymryd awgrymiadau gan y dosbarth. Gwrando ar dri symudiad arall o <i>The Armed Man</i> ac wrth iddynt wneud hynny, trafod yr hyn a allai ddigwydd yn eu barn nhw a sut mae'r cyfansoddwr wedi cyflawni hyn. Darn 1 yw 'Charge!' (rhuthro i'r frwydr), darn 2 yw <i>Benedictus</i> (galaru'r meirw), darn 3 yw <i>Better is Peace</i> (dathliad bod rhyfel ar ben). Wrth iddynt wrando, gofyn i'r dosbarth dynnu llun o'r hyn sy'n digwydd yn eu barn nhw ar y daflen waith a ddarperir neu ar bapur A4 ar wahân. • Rhoi trosolwg byr o <i>Palladio</i>. Gwrando ar y darn a defnyddio'r daflen waith cymharu a chyferbynnu, llenwi'r manylion ar gyfer darn 1. Atgoffa'r dosbarth o'r derminoleg gerddorol ar gyfer tempo a deinameg. Yn y golofn 'arall', dylent wneud nodiadau o unrhyw beth arall o ddiddordeb, fel naws. Gwrando ar y darnau eraill ac ysgrifennu'r hyn maen nhw'n ei glywed. Sut mae'r trefniant wedi newid? Beth sydd wedi aros yr un peth? Pa un o'r darnau sydd orau ganddynt a pham? • TASG YMESTYNNOL: Creu dawns stryd am <i>Palladio</i>. • TASG YMESTYNNOL: Chwarae symudiadau eraill o <i>The Armed Man</i> yn ystod gweithgareddau dosbarth 	<ul style="list-style-type: none"> • Amrywiaeth o offerynnau taro wedi'u tiwnio a heb eu tiwnio • Karl Jenkins PPT • Taflen waith ffeil ffeithiau • Dogfen eiriau <i>Adiemus</i> • Taflen waith Cymharu a Chyferbynnu • Taflen waith tasg tynnu llun <i>The Armed Man</i> • Celf/llywiau/paent 	<p><u>Perfformio:</u> 1, 2, 3, 5, 6, 8</p> <p><u>Cyfansoddi:</u> 1, 2, 4</p> <p><u>Gwerthuso:</u> 1, 2, 3, 4</p>